OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3143

# Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008

## RHAN 10

Gorfodi

### Tramgwyddau a chosbau

**48.**—(1) Mae unrhyw berson sy'n torri unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn euog o dramgwydd ac yn agored —

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy.

(2) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall tebyg yn y corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth o'r fath,

bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "cyfarwyddwr" ("*director*"), mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

### Gorfodi

**49.** Mae'r Rheoliadau hyn i'w gorfodi gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd.

### Dirymu

**50.** Mae'r Rheoliadau canlynol wedi'u dirymu i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru—

(a) Rheoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 1996(**1**);

(b) Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Cymru a Lloegr) 1998(**2**);

(c) Rheoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002(**3**); ac

(**1**) O. S. 1996/888.
(**2**) O.S. 1998/1202.
(**3**) O.S. 2002/2297 (Cy. 226).

(ch) Rheoliadau Diogelu Dŵr rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2006(**4**).

(**4**) O.S. 2006/1289.